| 30 Hyd 2001 | Y Prif Weinidog, Y Gwir Anrh. Tony Blair AS, yn annerch y Cynulliad am y tro cyntaf. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 12, yn ymestyn yr amser ar gael i'r Llywodraeth i ymateb at Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, rhif 15, sy'n galluogi'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ystyried materion o fewn cylch gorchwyl pwyllgor pwnc unigol o fewn hawliau'r pwyllgor hwnnw ac ychwanegu meithrin perthnasau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd at ei cylch gorchwyl, a rhif 23, yn ymestyn y drefniadaeth Gweithredol er mwyn delio gyda argyfwng clwy'r traed a'r genau. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 16 Hyd 2001 | Val Lloyd AC yn mynychu ei chyfarfod llawn cyntaf yn dilyn is-etholiad Dwyrain Abertawe. |
| 27 Medi 2001 | Val Lloyd yn ennill etholaeth Dwyrain Abertawe yn is-etholiad cyntaf y Cynulliad. |
| 19 Gorff 2001 | Telir teyrnged yn y Cyfarfod Llawn i'r diweddar Val Feld, Aelod ar gyfer Dwyrain Abertawe a bu farw ar 17 Gorffennaf 2001. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 22. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 17 Gorff 2001 | Y Cynulliad Cenedlaethol, ymhellach at benderfyniad 21 Mehefin 2000, yn penderfynu ceisio tendrau cystadleuol i gwblhau adeilad y Cynulliad, wedi ei seilio ar y dyluniad a baratowyd gan Bartneriaeth Richard Rogers, ac un ai ei brydlesu i'r Cynulliad neu ei werthu am un swm y cytunwyd arno; a gohirio gwaith ar yr adeilad nes i'r fath dendr gael ei dderbyn. (Cyswllt ir Cofnod) |
| 12 Gorff 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 23 sydd yn galluogi cyflwyniad y drefniadaeth gweithredol. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 6 Gorff 2001 | Mike German AC (Democrat Rhyddfrydol) yn symud o'r neulltu dros-dro fel Dirprwy Prif Weinidog Cymru. Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC (Llafur) yn cymryd cyfrifoldeb am Ddatblygu Economaidd a Jenny Randerson AC (Democrat Rhyddfrydol) yn cael ei hapwyntio'n Ddirpwry Prif Weinidog dros-dro.<br><br>Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) yn cael ei ethol yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol De Orllewin Cymru. |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 5 Gorff 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 3 er mwyn galluogi gwneud taliadau i grwpiau Parti a chaniatáu gwneud taliadau ychwanegol i gadeiryddion y pwyllgorau pwnc. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 26 Meh 2001 | Yn dilyn ataliad ar gyfer yr etholiad cyffredinol ar 7 Mehefin, cynhelir tri cyfarfod llawn mewn un wythnos ar y 26, 27 a 28 Mehefin.<br><br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi datganiad ar Araith y Frenhines yn y siambr. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 7 Meh 2001 | Y Blaid Lafur yn ennill Etholiad Cyffredinol y DU gyda mwyafrif o 167 o seddi. |
| 17 Mai 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheolau Sefydlog 6.3 a 6.26 sy'n galluogi aelodau i osod cwestiynau i'r Trefnydd ar ei gyfrifoldebau yn hytrach na busnes. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 15 Mai 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001. Daethpwyd a'r Rheoliadau ymlaen yn dilyn cynnig llwyddiannus Brian Hancock dan Rheol Sefydlog 29 ar 24 Hydref 2000. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 8 Mai 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 23.3, sy'n dwyn ymlaen trefniadaeth gweithredol dros dro er mwyn caniatáu i weinidog y Cynulliad gymeradwyo is-ddeddfwriaeth y Cynulliad a wnaed mewn cysylltiad â Gweinidog y DU neu adran llywodraeth y DU, deddfwriaethau yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 3 Mai 2001 | Christine Gwyther AC (Llafur) yn cael ei hethol i ddilyn Val Feld AC (Llafur) fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 1 Mai 2001 | Y Cynulliad yn gwrthod y cynnig o gerydd gan y Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt AC. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 5 Ebrill 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 34 sydd yn galluogi adolygiadau at reoliadau sefydlog dros-dro. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 3 Ebrill 2001 | Eleanor Burnham AC (Democrat Rhyddfrydol) yn mynychu ei chyfarfod llawn cyntaf wedi iddi gymryd lle Christine Humphreys AC fel Aelod Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. |
| 31 Maw 2001 | Christine Humphreys AC (Democrat Rhyddfrydol) yn ymddiswyddo o'r Cynulliad. |
| 1 Maw 2001 | Telir Teyrngedau yn y cyfarfod llawn i Mr John Lloyd, Clerc y Cynulliad, ar ei ymddeoliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br>Y Clerc newydd, Mr Paul Silk yn cychwyn ar ei swydd.<br><br>Y Taoiseach, Bertie Ahern TD yn annerch y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Cynhelir seremoni 'torri'r dywarchen' ar safle adeilad newydd y Cynulliad.<br><br>Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 12 sydd yn galluogi'r Llywydd i gyhoeddi canllawiau ar osgoi gwrthdaro rhwng diddordebau pan yn cymryd rhan yng ngweithgareddau y Pwyllgor Archwilio. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 28 Chw 2001 | Lawnsio canolfan ymwelwyr y Cynulliad yn adeilad y Lanfa. (Rhagor o Wybodaeth) |
| 6 Chw 2001 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 3, yn galluogi cynrychiolydd o Pwyllgor y Ty i osod a chynnig cynigion yn ymwneud a'i swyddogaethau, a Rhif 6 yn adlewyrchu y newidiadau at SO 22 a wnaed ar 5 Rhagfyr 2000. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 18 Ion 2001 | Holi'r cwestiynau cyntaf i Pwyllgor y Ty yn y cyfarfod llawn. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| **2000** | |
| 12 Rha 2000 | Yr Athletwraig paralympaidd Tanni Grey-Thompson OBE yn annerch y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 7 Rhag 2000 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 4 a Rhif 6.20, sy'n galluogi y Llywydd i gymryd pleidlais drwy alwad enwau neu ddangos dwylo. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 6 Rhag 2000 | Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad. |
| 5 Rhag 2000 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 22 (Is-ddeddfwriaeth), ac yn ei rannu i ddarnau ar wahan. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 28 Tach 2000 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog Rhif 6.3 yn galluogi y Gweinidog Cyllid i ateb cwestiynau ar ei cyfrifoldebau Cyllid ar wahan i'w cyfrifoldebau eraill. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 15 Tach 2000 | Cynhelir cyfarfodydd cyntaf y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol-Oes. |
| 10 Tach 2000 | Ail-enwi Swyddfa'r Llywydd yn y Saesneg, o *Office of the Presiding Officer* i *Presiding Office*. |
| 9 Tach 2000 | Etholiadau i'r Pwyllgorau Pwnc yn digwydd yn y cyfarfod llawn fel a ganlyn:<br>- Etholwyd Cynog Dafis AC AS (Plaid Cymru) yn Gadeirydd Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes<br>- Etholwyd Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Diwylliant.<br>- Etholwyd Glyn Davies AC (Ceidwadwyr) yn lle Rhodri Glyn Thomas AC yn Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.<br>- Etholwyd Mick Bates AC (Democrat Rhyddfrydol) yn lle Michael German AC (Democrat Rhyddfrydol) yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Deddfau (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 26 Hyd 2000 | Etholwyd y Gwir Anrh. Henry McLeish MSP yn Brif Weinidog newydd yr Alban. |
| 25 Hyd 2000 | Cynhaliwyd cyfarfodydd olaf Pwyllgorau Addysg Ol-16 ac Addysg cyn-16. |
| 24 Hyd 2000 | Cynnig Brian Hancock AC (Plaid Cymru) i gyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad ar Addysg a Hyfforddi ol-16 i ddod ag is-ddeddfwriaeth drafft ymlaen o dan adran 46(3) o'r Deddf Addysg 1997, yw'r cynnig llwyddiannus cyntaf dan Rheol Sefydlog 29. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 19 Hyd 2000 | Etholwyd Dr John Marek AC AS (Llafur) i gymryd lle Jane Davidson AC fel Dirprwy Lywydd o dan Rheol Sefydlog 1.13. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 17 Hyd 2000 | Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS a Michael German AC yn arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth. (Datganiad i'r Wasg)<br><br>Prif Weinidog Cymru yn datgan newidiadau pellach i'w tîm gweinidogol, gan apwyntio'r Dirprwy Gweinidogion canlynol:<br>- Dirprwy Weinidog dros Datblygu Economaidd - Alun Pugh AC (Llafur)<br>- Dirprwy Weinidog ar gyfer Llywodraeth Leol - Peter Black AC (Democrat Rhyddfrydol)<br>- Dirprwy Weinidog dros Iechyd - Brian Gibbons AC (Llafur)<br>- Dirprwy Weinidog dros Faterion Gwledig, Diwylliant a'r Amgylchedd - Delyth Evans AC (Llafur)<br>- Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes - Huw Lewis AC (Llafur)<br><br>Cadeirydd Pwyllgor Monitro Amcan Un - Christine Chapman AC. (Datganiad i'r Wasg) |
| 16 Hyd 2000 | Y Gwir Anrh Rhodri Morgan AC AS yn cyhoeddi manylion am y Cabinet Partneriaeth newydd:<br>- Prif Weinidog Cymru – Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS (Llafur)<br>- Dirprwy Prif Weinidog a Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd - Michael German AC (Democrat Rhyddfrydol)<br>- Trefnydd - Andrew Davies AC (Llafur)<br>- Gweinidog dros Gyllid a'r Cymunedau - Edwina Hart AC (Llafur)<br>- Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes - Jane Davidson AC (Llafur)<br>- Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon - Jenny Randerson AC (Democrat Rhyddfrydol)<br>- Gweinidog dros yr Amgylchedd - Sue Essex AC (Llafur)<br>- Gweinidog dros Faterion Gwledig - Carwyn Jones AC (Llafur)<br>- Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Jane Hutt AC (Llafur)<br><br>O ganlyniad i'r ad-drefnu, mae Peter Law AC a Rosemary Butler AC yn gadael y Cabinet.<br><br>Y Cabinet yn mabwysiadu'r term 'Gweinidog' yn lle 'Ysgrifennydd'. (Datganiad i'r Wasg) |
| 12 Hyd 2000 | Telir Teyrnged i'r Gwir Anrh. Donald Dewar MSP AS, Prif Weinidog yr Alban, yn dilyn ei farwolaeth ar 11 Hydref 2000. |
| 10 Hyd 2000 | Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu Pwyllgor y Ty dan Reol Sefydlog newydd 28, ac hefyd i greu cyllideb annibynol i Swyddfa'r Llywydd mewn cytundeb â Rheol Sefydlog 19. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) Mae hyn yn golygu fod Swyddfa'r Llywydd yn cael annibyniaeth am rai swyddogaethau oddi wrth gweddill y Cynulliad. |
| 9 Hyd 2000 | Tom Middlehurst yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant ol-16. Datganiad i'r Wasg |
| 6 Hyd 2000 | *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru*, y Cytundeb Partneriaeth rhwn Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cael ei gyhoeddi. |
| 5 Hyd 2000 | Datgan y partneriaeth clymbleidiol newydd rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Datganiad i'r Wasg |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 14 Medi 2000 | Cynhelir y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ddydd Iau o dan y trefniant newydd. Yn y dyfodol bydd y cyfarfodydd llawn yn cael eu cynnal ar boreau Mawrth a prynhawniau Iau. |
| 12 Medi 2000 | Defnyddir clociau yn y Siambr i amseru cwestiynau a siaradwyr yn ystod y dadleuon.<br><br>Cynnig dan Rheol Sefydlog 8.1 i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Penodi'r Comisiynydd Plant yn cael ei basio yn y cyfarfod llawn. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4 etholwyd Jane Hutt AC (Llafur) yn gadeirydd y Pwyllgor. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 3 Awst 2000 | Ieuan Wyn Jones AC AS yn olynu'r Gwir Anrh. Dafydd Wigley AC AS fel Llywydd Plaid Cymru – The Party of Wales. |
| 24 Gorff 2000 | Apwyntio Delyth Evans (Llafur) yn Is-Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth, Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd i olynu Carwyn Jones AC. |
| 23 Gorff 2000 | Y Prif Ysgrifennydd yn datgan newid o fewn y Cabinet, gyda Carwyn Jones AC yn disodli Christine Gwyther AC fel Ysgrifennydd Amaeth. |
| 12 Gorff 2000 | Y Prif Ysgrifennydd yn datgan yn y Cyfarfod Llawn bod cytundeb wedi ei gyrraedd ar adolygiad trawsbleidiol o weithdrefnau'r Cynulliad, yn gweithio o fewn fframwaith Deddf Llywodraeth Cymru 1998, sef creu grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 27 Meh 2000 | Syr David Steel KBE MSP, Llywydd Senedd yr Alban, yn annerch y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheolau Sefydlog Rhif 12 a 22, ac felly yn darparu trefniadau dirprwyo ar gyfer aelodau a waharddwyd o'r Pwyllgor Archwilio a chyflwyno threfniadeth gyflymedig. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 21 Meh 2000 | Y Cynulliad yn ailddatgan penderfyniad 26 Ionawr 2000 ynglyn ag Adeilad newydd y Cynulliad, gyda'r penderfyniad o barhau gydag Opsiwn B fel ag a ddisgrifiwyd yn y ddogfen *'Gwybodaeth am Broject Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'*. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 31 Mai 2000 | Y Gwir Anrh. Dafydd Wigley AC AS yn rhoi'r gorau i'w Swydd fel Llywydd Plaid Cymru. |
| 23 Mai 2000 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog 19 am Benderfyniad Cyllideb y Cynulliad, 22.12 a 27, yn galluogi gosod memorandwm o gywiriadau ac yn galluogi Pwyllgor Penderfyniad Cynllunio i gyfarfod yn ystod y Toriad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 17 Mai 2000 | Y drydedd cynnig o gerydd yn erbyn Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Christine Gwyther AC, y tro hwn gan y Ceidwadwyr, yn cael ei wrthod gan y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 9 Mai 2000 | Delyth Evans AC (Llafur) yn mynychu ei chyfarfod llawn cyntaf fel Aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi iddi olynnu'r Gwir Anrh. Alun Michael AS. |
| 1 Mai 2000 | Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS yn ymddiswyddo fel Aelod Cynulliad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| 26 Ebrill 2000 | Cofnodion Cabinet y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf. Ar gael ar wefan y Cynulliad. |
| 6 Ebrill 2000 | Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 5 Ebrill 2000 | Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.<br><br>Y Cynulliad yn cymwradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog yn galluogi'r Llywydd i gyflawni swyddogaethau yr Is-Lywydd ac i alluogi aelodau i gofrestru diddordebau drwy'r post. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 29 Maw 2000 | Ethol Richard Edwards AC (Llafur) fel Cadeirydd Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a Gwenda Thomas AC (Llafur) fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 22 Maw 2000 | Yn dilyn cyfarfod grwp prosiect Adeilad Newydd y Cynulliad, rhoddir stop ar brosiect Adeilad Newydd y Cynulliad. (Datganiad i'r Wasg) |
| 15 Maw 2000 | Etholir Edwina Hart AC (Llafur) i olynu Jane Hutt AC (Llafur) fel cadeirydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 14 Maw 2000 | Datganiadau'r Prif Ysgrifennydd i'r Wasg yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf.<br><br>Ethol Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) i gymryd lle Ieuan Wyn Jones AC AS (Plaid Cymru) fel Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 8 Maw 2000 | Cyfarfod olaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol ac Amgylchedd. |
| 29 Chw 2000 | Y Llywydd yn datgan yn y Cyfarfod Llawn bod David Lambert wedi ei apwyntio fel cynghorydd cyfreithiol annibynol i Swyddfa'r Llywydd. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Ethol Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS (Llafur) i olynu'r Gwir Anrh. Alun Michael AC AS (Llafur) fel Cadeirydd y Pwyllgor dros Materion Ewropeaidd. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 23 Chw 2000 | Y Prif Ysgrifennydd Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS yn datgan apwyntiad tri Is-ysgrifennydd a fydd yn cynorthwyo Ysgrifenyddion Cabinet y Cynulliad gyda'u gwaith. Yr apwyntiadau yw:<br>- Alun Pugh AC: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Carwyn Jones AC: Amaethyddiaeth, Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd<br>- Christine Chapman AC: Addysg a'r Economi<br>(Datganiad Newyddion) |
| 22 Chw 2000 | Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS yn datgan ad-drefniad i'r Cabinet, a newidiadau i bortffolio:<br>- Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd dros Datblygu Economaidd – Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS<br>- Trefnydd - Andrew Davies AC AS<br>- Ysgrifennydd dros Gyllid - Edwina Hart AC AS<br>- Ysgrifennydd dros Hyfforddiant ac Addysg ar ôl 16 - Tom Middlehurst AC AS<br>- Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Jane Hutt AC AS<br>- Ysgrifennydd dros Addysg hyd at 16 a Plant - Rosemary Butler AC AS<br>- Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig - Christine Gwyther AC AS<br>- Ysgrifennydd dros Llywodraeth Leol a Thai - Peter Law AC AS<br>- Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth - Sue Essex AC AS (Datganiad Newyddion) |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 16 Chw 2000 | Swyddogaethau'r Trydydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn cael eu dirprwyo i'r Prif Ysgrifennydd. |
| 15 Chw 2000 | Ethol Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS fel Prif Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 9 Chw 2000 | Cynnig yn enw Nicholas Bourne AC, Michael German AC, Jocelyn Davies AC, William Graham AC a Jenny Randerson AC, *'nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hyder yn y Prif Ysgrifennydd'.* (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS, dan Rheolau Sefydlog, yn cyflwyno ei ymddiswyddiad fel Prif Ysgrifennydd.<br><br>O dan Rheol Sefydlog 2.10 mae'r Cabinet yn ethol Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS fel Prif Ysgrifennydd gweithredol. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 26 Ion 2000 | Y Cynulliad yn penderfynu parhau â chynllun Adeilad Newydd y Cynulliad, ar sail diwygiedig yr hyn a gyflwynir yn *'Project Adeilad Newydd y Cynulliad: adroddiad cynnydd y Cynulliad rhif 1/2000'*. |
| 25 Ion 2000 | Cymeradwyo'r Trydydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (SI 2000/253). |
| 19 Ion 2000 | Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Rheol Sefydlog 27 yn ymwneud â'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| | |
| **1999** | |
| 8 Rha 1999 | Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol dros Gymru, David Hanson AS, yn annerch y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 30 Tach 1999 | Yr Anrhydeddus Roy MacLaren, Uwch Gomisiynydd Canada, yn annerch y Cynulliad.<br><br>Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines yn y Cyfarfod Llawn. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 24 Tach 1999 | Ethol David Melding AC (Ceidwadwyr) i gymryd lle Nicholas Bourne AC (Ceidwadwyr) fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 15 Tach 1999 | *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 1999* yn dod i rym (SI 1999/2787). |
| 9 Tach 1999 | Rheolau Sefydlog yn cael eu newid fel y bydd pob pleidlais yn digwydd yn electronig yn y dyfodol. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 2 Tach 1999 | Y Cynulliad yn gwrthod y cynnig o ddiffyg hyder yn y Prif Ysgrifennydd, Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS gan y Ceidwadwyr Cymreig. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 19 Hyd 1999 | Y Cynulliad yn derbyn y cynnig o gerydd a osodwyd gan aelodau'r 3 wrthblaid yn erbyn Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig (Christine Gwyther AC). (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 12 Hyd 1999 | Mr Bob Carr, Prif Weinidog De Cymru Newydd, yn annerch y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 5 Hyd 1999 | Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Ty. |
| 23 Medi 1999 | Cynhelir cyfarfodydd llawn yn y bore a'r prynhawn am y tro cyntaf. |
| 21 Medi 1999 | Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio. |
| 15 Medi 1999 | Y Cynulliad yn gwrthod y cynnig o gerydd a osodwyd gan Y Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Christine Gwyther. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 18 Awst 1999 | Ethol Nicholas Bourne AC AS fel arweinidd y Ceidwadwyr Cymreig. |
| 10 Awst 1999 | Rod Richards yn ymddiswyddo fel arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig. |
| 29 Gorff 1999 | Apwyntio Paul Murphy AS fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. |
| 22 Gorff 1999 | Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau. |
| 21 Gorff 1999 | Newidiadau i Rheolau Sefydlog 6.35 a 6.36 (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) ynglyn â'r Ddadl Fer |
| 20 Gorff 1999 | Y Cynulliad yn cytuno y dylid hysbysu Partneriaeth Richard Rogers i barhau gyda datblygiad Project Adeilad Newydd y Cynulliad o fewn paramedrau cost a sefydlwyd. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 13 Gorff 1999 | Ethol Val Feld AC (Llafur) i gymryd lle'r Gwir Anrh. Ron Davies AC AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Yr etholiad yn effeithiol yn syth wedi diwedd cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 14 Gorffennaf 1999. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 9 Gorff 1999 | Cynhelir cyfarfodydd cyntaf Pwyllgorau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a De Ddwyrain Cymru. Etholir Glyn Davies AC (Ceidwadwyr) yn gadeirydd Pwyllgor Canolbarth Cymru a Jenny Randerson AC (Democrat Rhyddfrydol) yn gadeirydd ar Bwyllgor De Ddwyrain Cymru. |
| 6 Gorff 1999 | Ei Arddechowgrywdd Mr Phillip Lader, Llysgennad Unol Daleithiau America yn annerch y Cynulliad. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 2 Gorff 1999 | Cynhelir cyfarfodydd cyntaf Pwyllgorau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Orllewin Cymru. Etholir Gareth Jones AC (Plaid Cymru) yn gadeirydd ar Bwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru a Peter Black AC (Democrat Rhyddfrydol) yn gadeirydd ar Bwyllgor Rhanbarthol De Orllewin Cymru. |
| 1 Gorff 1999 | *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* yn dod i rym, gan drosglwyddo pwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (SI 1999/672).<br><br>Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.<br><br>Staff y Swyddfa Gymreig yn trosglwyddo i'r Cynulliad. Y Swyddfa Gymreig yn dirwyn i ben. |
| 29 Meh 1999 | Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Deddfau. (Cofnodion) |
| 23 Meh 1999 | Cynhelir cyfarfodydd cyntaf Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cofnodion), Llywodraeth Leol ac Amgylchedd (Agenda), a Hyfforddiant ac Addysg ar ôl 16. (Cofnodion).<br><br>Pasiwyd Cynnig i ethol y Cadeiryddion Pwyllgor canlynol yn y cyfarfod llawn, dan adrannau 60(3) a (5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.<br>- Janet Davies AC (Plaid Cymru), Archwilio;<br>- Michael German AC (Democrat Rhyddfrydol), Deddfau;<br>- Nicholas Bourne AC (Ceidwadwyr), Safonau;<br>- Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS (Llafur), Materion Ewropeaidd;<br>- Jane Hutt AC (Llafur), Cyfle Cyfartal. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 16 Meh 1999 | Y Cynulliad yn dirprwyo ei swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd yn unol ag Adran 62(1)b o Ddeddf Llywodraeth Cymru. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion)<br><br>Cynhelir cyfarfodydd cyntaf Pwyllgorau Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Datblygu Economaidd ac Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar y Cynulliad. |
| 26 Mai 1999 | Seremoni Agoriadiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi ei fynychu gan Ei Mawrhydi y Frenhines, Dug Caeredin a Thywysog Cymru. |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 19 Mai 1999 | Etholiadau i Panel Cadeiriau'r Pwyllgorau Pwnc:<br>- Y Gwir Anrh. Ron Davies AC AS (Llafur), Datblygu Economaidd;<br>- Sue Essex AC (Llafur), Cynllunio a'r Amgylchedd;<br>- Ieuan Wyn Jones AC AS (Plaid Cymru), Amaethyddiaeth a Materion Gwledig;<br>- Cynog Dafis AC AS (Plaid Cymru), Addysg ar ôl 16 a Dysgu Gydol oes;<br>- William Graham AC (Ceidwadwyr), Addysg ar ôl 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar;<br>- Kirsty Williams AC (Democrat Rhyddfrydol), Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 12 Mai 1999 | Cyfarfod llawn cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>- Ethol yr Arglwydd Elis-Thomas AC (Plaid Cymru) yn Llywydd<br>- Jane Davidson AC (Llafur) yn Ddirprwy Llywydd<br>- Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS (Llafur) yn Brif Ysgrifennydd<br><br>Apwyntiwyd Cabinet y Cynulliad:<br><br>- Datblygu Economaidd - Rhodri Morgan AC AS<br>- Addysg (hyd at 16) - Rosemary Butler AC<br>- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Jane Hutt AC<br>- Hyfforddiant ac Addysg ar ôl 16 - Tom Middlehurst AC<br>- Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig - Christine Gwyther AC<br>- Amgylchedd (gan gynnwys llywodraeth leol a chynllunio) - Peter Law AC<br>- Trefnydd - Andrew Davies AC<br>- Cyllid - Edwina Hart AC, (Cyswllt i Gofnod y Trafodion) |
| 6 Mai 1999 | Etholiadau cyntaf y Cynulliad.<br><br>Uned Datganoli y Swyddfa Gymreig yn dirwyn i ben. |
| 12 Ebrill 1999 | Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu creu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS. |
| 26 Maw 1999 | Cyngor Ewrop yn datgan fod ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer statws Amcan Un. |
| 10 Maw 1999 | Creu *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* (SI 1999/672). |
| 10 Maw 1999 | Creu *Gorchymyn Cynrhychiolaeth y Bobl* (SI 1999/450), yn gosod trefniadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. |
| 18 Ion 1999 | Staff y Swyddfa Gymreig yn cychwyn symud draw at Dy Crughywel. |
| Ionawr 1999 | Comisiynwyr Rheolau Sefydlog yn cyflwyno eu hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru. |
| **1998** | |
| 4 Rhag 1998 | Cyhoeddi Papur Ymgynghorol ar Cofnod y Trafodion yn gwahodd ymatebion erbyn Ionawr 1999. |
| 30 Tach 1998 | Datganiad fod cytundeb darlledu'r Cynulliad wedi ei gyflwyno i Barcud Derwen. |
| 27 Hyd 1998 | Apwyntio'r Gwir Anrh. Alun Michael AC AS yn Ysgrifennyd Gwladol newydd ar Gymru. Datganiad i'r Wasg |
| 26 Hyd 1998 | Y Gwir Anrh. Ron Davies AC AS yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 20 Hyd 1998 | Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh. Ron Davies AC AS yn datgan ei fod wedi derbyn argymhellion y panel cynllunio ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad o blaid Partneriaeth Richard Rogers. Datganiad i’r Wasg |
| 7 Hyd 1998 | Datganiad taw Winston Roddick QC fydd Cwnsler Cyffredinol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol. |
| Hydref 1998 | Uned Weithredu’r Cynulliad yn cael ei sefydlu er mwyn gosod trefnau mewn lle, recriwtio staff ac ati. |
| Medi 1998 | Cyfarfod cyntaf y Comisiwn Rheolau Sefydlog. |
| 24 Awst 1998 | Cyhoeddi adroddiad Grwp Ymgynghori’r Cynulliad Cenedlaethol. |
| 31 Gorff 1998 | Cydsyniad Brenhinol i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. |
| 29 Gorff 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Arglwyddi – Ystyried Gwelliannau Ty’r Cyffredin. (Cyswllt i Hansard) |
| 22 Gorff 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin – Ystyried Gwelliannau Ty’r Arglwyddi. (Cyswllt i Hansard) |
| 15 Gorff 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi 3ydd Darlleniad. (Cyswllt i Hansard) |
| 9 Gorff 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Adrodd – 2il ddiwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 1 Gorff 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Adrodd – diwrnod 1af (Cyswllt i Hansard) |
| 15 Meh 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Pwyllgor – 5ed diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 9 Meh 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Pwyllgor – 4ydd diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 3 Meh 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Pwyllgor – 3ydd diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 2 Meh 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Pwyllgor – 2il diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 11 Mai 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Cyfnod Pwyllgor – diwrnod 1af (Cyswllt i Hansard) |
| 21 Ebrill 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi 2il Ddarlleniad. (Cyswllt i Hansard) |
| 17 Ebrill 1998 | NAAG yn cyhoeddi papur ymgynghori gyda’r teitl *Dweud eich Dweud*, gydag ymatebion erbyn 29 Mai 1998. |
| 27 Maw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Arglwyddi Darlleniad 1af (Cyswllt to Hansard) |
| 26 Maw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Adroddiad – 2il diwrnod / Ty’r Cyffredin 3ydd Darlleniad. (Cyswllt to Hansard) |
| 25 Maw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Adroddiad – diwrnod 1af (Cyswllt i Hansard) |
| 2 Maw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – 7fed diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 25 Chw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – 6ed diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 3 Chw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – 5ed diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 2 Chw 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – 4ydd diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 26 Ion 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – 3ydd diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |
| 21 Ion 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty’r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – 2il diwrnod. (Cyswllt i Hansard) |

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| 20 Ion 1998 | *Mesur Llywodraeth Cymru* Ty'r Cyffredin Cyfnod Pwyllgor – diwrmod 1af (Cyswllt i Hansard) |
| **1997** | |
| Rhagfyr 1997 | Apwyntio Grwp Cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol (NAAG). |
| 8-9 Rha 1997 | 2il Ddarlleniad *Mesur Llywodraeth Cymru.* (Cyswllt i Hansard) |
| 26 Tach 1997 | Darlleniad 1af *Mesur Llywodraeth Cymru.* (Cyswllt i Hansard) |
| 18 Medi 1997 | Mewn Refferendwm ar Ddatganoli, holwyd i'r etholaeth ddewis rhwng y canlynol:<br>'1.yr wyf yn cytuno y dylid cael cynulliad i Gymru; neu<br>2.Nid wyf yn cytuno y dylid cael cynulliad i Gymru'<br><br>Canlyniad: Cytuno 50.3%, Anghytuno 49.7% (Cyswllt i'r Ddeddf isod) |
| 31 Gorff 1997 | Rhoddir Cydsyniad Brenhinol i *Ddeddf Refferenda (Yr Alban a Chymru) 1997*. |
| 22 Gorff 1997 | Cyhoeddi'r Papur Gwyn *Llais dros Gymru*. |
| 15 Mai 1997 | Darlleniad cyntaf y *Mesur Refferendwm (Yr Alban a Chymru)*. (Cyswllt i Hansard) |
| 1 Mai 1997 | Ethol Llywodraeth Lafur – gydag ymrwymiad maniffesto i gynnal refferendwm ar Gynulliad i Gymru. |